PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG

Dydd Llun, 23 Ionawr 2023

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd A.C.Jones (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	L. Davies	P. Hughes Griffiths	S.L. Rees
E. Skinner			

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

K.V. Broom	L.M. Davies	B.W. Jones	D. Jones
M.J.A. Lewis	M. Thomas	J.M. Charles (dirprwyo)	

Aelodau Cyfetholedig (Yn y Siambr):
A. Enoch, Rhiant-lywodraethwr
V. Kenny, Cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig

Aelodau Cyfetholedig (Yn rhithwir)
F. Healey-Benson, Rhiant-lywodraethwr

Roedd yr Aelodau Cabinet canlynol yn bresennol (Yn y Siambr):
G. Davies
A. Lenny

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
E. Forsyth, Arweinydd Strategol ar gyfer Effeithiolrwydd Ysgolion
S. Nolan, Cyfrifydd Grŵp
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [cymryd nodiadau]

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):
S. Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg
A. Rees, Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr
A Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau
I. Altman, Cynrychiolydd Partneriaeth
C. Morgan, Cynrychiolydd Partneriaeth
G. Schiavone, Cynrychiolydd Partneriaeth

Chamber - County Hall, Carmarthen. SA31 1JP and remotely - 10.00 - 11.55 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr aelod cyfetholedig D. Elias a'r Cynghorydd L. Bowen.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Aelod	Rhif y Cofnod(ion)	Y Math o Fuddiant
Y Cynghorydd Llinos Davies	5. Ymgynghori Ynghylch Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2023/24 i 2025/26	Ei gŵr yn dysgu cerddoriaeth mewn ysgol uwchradd.
Carys Jones	5. Ymgynghori Ynghylch Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2023/24 i 2025/26	Ei merch-yng-nghyfraith yn gweithio dan Adran Addysg a Gwasanaethau Plant y Cyngor mewn ysgol yn y sir.
Betsan Jones	5. Ymgynghori Ynghylch Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2023/24 i 2025/26	Ei mab yn Bennaeth mewn ysgol yn y sir.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. CWRICWLWM I GYMRU A CHYMORTH A DDARPERIR I YSGOLION

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r cymorth oedd ar gael i ysgolion, lleoliadau arbenigol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion Sir Gaerfyrddin gan y Cyngor Sir a'r consortiwm rhanbarthol, Partneriaeth, wrth iddynt hwyluso gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, roedd ysgolion cynradd wedi gweithredu'r cwricwlwm newydd ym Medi 2022, tra byddai ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2023 ymlaen.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar ddatblygiad y Cwricwlwm newydd i Gymru a oedd yn ceisio sicrhau addysgeg gadarn ac effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion unigol ar bob lefel, er mwyn galluogi ysgolion i symud ymlaen yn effeithiol yn unol ag amcanion y Genhadaeth Genedlaethol. Yn unol â hynny, roedd y Cwricwlwm newydd i Gymru wedi'i drefnu ar sail 6 Maes Dysgu a Phrofiad, ac yn cael ei ategu gan Gyfrifoldebau Traws Gwricwlaidd Llythrennedd, Rhifedd, Cymhwysedd Digidol a'r Sgiliau Ehangach.

Roedd y cyflwyniad yn manylu ar natur y cymorth a ddarperir i fynd i'r afael â'r heriau mae ysgolion yn eu hwynebu wrth gadw at yr ystod o elfennau cymhleth a gorfodol sy'n ofynnol wrth ddatblygu a darparu'r cwricwlwm newydd. Yn hyn o beth, darparwyd trosolwg o Gynllun Busnes Partneriaeth i'r Pwyllgor. Roedd y cwricwlwm newydd yn greiddiol i amcanion strategol a Chynnig Dysgu Proffesiynol Partneriaeth, yn ogystal â darparu cefnogaeth bwrpasol, leol i ysgolion.

Derbyniodd y Pwyllgor grynodeb o Strategaeth Wella Adran Addysg a Gwasanaethau Plant yr Awdurdod, a oedd yn cyd-fynd â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwella Ysgolion a'r nod oedd gweithio ochr yn ochr ag ysgolion i adlewyrchu ar gynnydd y disgyblion o ganlyniad i ddarpariaeth y cwricwlwm. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gynnig Dysgu Proffesiynol Sir Gâr ar gyfer ysgolion. Daeth y cyflwyniad i'r casgliad fod y meysydd blaenoriaeth ar gyfer 2022-2023 yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Llywodraeth Cymru a chyfarfodydd traws rhanbarthol; rhannu meysydd a disgwyliadau ffocws allweddol mewn modd amserol
- Strategaeth a dysgu proffesiynol mewn perthynas â Dylunio'r Cwricwlwm; rhoi'r ddamcaniaeth ar waith
- Defnydd effeithiol o adnoddau ariannol
- Dilyniant sgiliau
- Gweithio mewn clwstwr
- Pontio
- Asesiad a chynnydd (o fewn pob maes dysgu a phrofiad)
- Rhannu arferion effeithiol ar draws ysgolion

Croesawodd y Pwyllgor y gwaith cadarnhaol oedd yn cael ei ddatblygu ar draws yr ysgolion yn Sir Gaerfyrddin, ond roedd yn cael ei gydnabod bod lefel y cynnydd yn amrywio ar draws ysgolion.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:

Ystyriodd y Pwyllgor yr heriau o ran y nifer fach oedd yn manteisio ar y dysgu proffesiynol oedd yn cael ei gynnig gan Partneriaeth, a'r diffyg cefnogaeth ganfyddedig i ysgolion ar gyfer datblygu'r cwricwlwm. Roedd problemau capasiti mewn ysgolion wedi'u nodi fel rhwystr allweddol i gael mynediad at hyfforddiant ac roedd lefel y cynnydd yn amrywio ar draws ysgolion. Yn unol â hynny, roedd dull pwrpasol ar lefel Awdurdod Lleol wedi cael ei weithredu ar gyfer Sir Gaerfyrddin i gefnogi anghenion ysgolion ac a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant i ddeall cynnydd disgyblion (3-16 oed) yn y Cwricwlwm i Gymru, ac yn mynd i'r afael â'r elfennau gorfodol oedd yn ymwneud â'r datganiadau 'beth sy'n bwysig'. Dywedwyd bod sesiynau hyfforddi a datblygu ar gael i ysgolion drwy gyfrwng sesiynau a ddarperid ar adegau oedd yn gyfleus i ysgolion, ac roedd recordiadau ohonynt hefyd ar gael ar-lein er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb.

Fe godwyd pryder o ran y pwysau oedd yn wynebu ysgolion o ystyried y llwyth gwaith sylweddol ar athrawon a staff ysgol. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y problemau capasiti wedi cael eu cydnabod gan yr Awdurdod Lleol a Phartneriaeth, a bod ymdrechion yn cael eu gwneud i fynd i'r afael â'r mater. Yn hyn o beth, cyfeiriwyd at lwyfan 'Porth' a oedd yn rhoi mynediad canolog i amrywiaeth eang o adnoddau i ysgolion gan Lywodraeth Cymru, Partneriaeth a'r Awdurdod Lleol. Cafodd rôl yr Awdurdod Lleol a Phartneriaeth o ran rhannu gwybodaeth a chyfathrebu ei phwysleisio i'r Pwyllgor, yn ogystal â darparu cymorth pwrpasol, hyblyg ac ymarferol i ysgolion.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, eglurwyd y gallai ysgolion ddefnyddio diwrnodau HMS ar gyfer materion oedd yn ymwneud â'u blaenoriaethau ar hyd y cwricwlwm. Fodd bynnag roedd darpariaeth hyfforddiant gyffredinol yn amhriodol gan fod clystyrau o ysgolion ar wahanol gamau o ran eu cynnydd wrth ddatblygu a

gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru, ac felly roedd angen i ysgolion gael mynediad at hyfforddiant gwahanol ar wahanol adegau, ar sail dull economi gymysg. Ar ben hynny, eglurwyd bod y Cwricwlwm newydd i Gymru wedi'i seilio ar set greiddiol o sgiliau, syniadau a datganiadau 'beth sy'n bwysig', ond bod pwyslais sylweddol ar addysgu o fewn y cyd-destun lleol i wella'r dysgu.

Codwyd ymholiad ynghylch effaith yr arbediad effeithlonrwydd arfaethedig o £75k ar gyfer Partneriaeth yng nghyllideb 2023/24. Eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod cyfraniad Sir Gâr i Partneriaeth yn llai o gymharu ag eraill, gan fod y Tîm Gwella Ysgolion yn cael ei gadw'n lleol o fewn yr Awdurdod Lleol. Hefyd, nid oedd angen cyfraniad craidd ar gyfer 2023/24, gan y byddai Partneriaeth dal yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i dalu costau craidd.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

5. YMGYNGHORI YNGHYLCH STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2023/24 TAN 2025/26

[NODER: Roedd y Cynghorwyr L.M. Davies ac A.C. Jones wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach; ailddatganwyd y buddiant hwnnw ganddynt a gadawsant y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei hystyried. At hynny, ar y pwynt hwn, datganodd y Cynghorydd B.W. Jones ddiddordeb personol ar y sail bod ei mab yn cael ei gyflogi fel Pennaeth mewn ysgol yn y sir. Arhosodd y Cynghorydd B. Jones yn y cyfarfod tra oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried].

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Cyllideb Refeniw y Cyngor 2023/24 i 2025/26 a oedd yn rhoi golwg gyfredol ar y gyllideb refeniw ar gyfer 2023/2024 ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2024/25 a 2025/26. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar ragamcanion y swyddogion ynghylch gofynion gwariant, ac roedd yn rhoi ystyriaeth i'r setliad amodol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 14 Rhagfyr 2022.

Er bod llawer o waith eisoes wedi'i wneud wrth baratoi'r gyllideb, pwysleisiwyd mai datganiad sefyllfa cychwynnol oedd yr adroddiad hwn a fyddai'n cael ei ddiweddaru yn dilyn y broses ymgynghori. Yn unol â hynny, atgoffwyd Aelodau bod yr adroddiad wedi'i ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 09 Ionawr 2023 a bod aelodau'r Pwyllgor wedi mynychu digwyddiadau ymgynghori yn ddiweddar, a oedd yn rhoi cyfle i ddadansoddi a chael eglurhad ynghylch gwahanol agweddau ar y gyllideb.

Nododd yr adroddiad, ar ôl addasiadau ar gyfer trosglwyddiadau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, mai 8.5% (£26.432 miliwn) oedd y cynnydd yn y setliad dros dro ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Roedd y Cyllid Allanol Cyfun wedi cynyddu felly i £338.017 miliwn yn 2023/24. Er bod y setliad yn gynnydd sylweddol o'r ffigwr dangosol o 3.4%, roedd y model ariannol yn rhagweld gofyniad i arbed £20m dros gyfnod o dair blynedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at adran 3.5 o strategaeth y gyllideb lle rhoddwyd trosolwg o gyllidebau dirprwyedig yr ysgolion i'r Aelodau. Nodwyd y byddai llawer o grantiau sy'n benodol i wasanaethau yn parhau ar lefel eithaf tebyg (gwerth arian parod) i flynyddoedd blaenorol, a fyddai, mewn gwirionedd, yn lleihau allbynnau o ystyried effaith dyfarniadau cyflog a chwyddiant cyffredinol. Fodd bynnag, roedd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau yn falch o allu dweud bod y Grant Trawsnewid

Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Grant Datblygu Disgyblion wedi cynyddu, ac, ar ben hynny, fod cyllid LIC wedi'i ddarparu i wastatau'r grant Recriwtio, Adfer, Codi Safonau, yn lle'r gostyngiad arfaethedig, a byddai hyn yn galluogi ysgolion i barhau â'u gweithgareddau adfer ar ôl covid.

Cyfeiriwyd at argymhelliad y corff adolygu cyflogau annibynnol o gynnydd o 5% i'r holl Athrawon, a oedd wedi cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod aelodau'r Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) wedi pleidleisio o blaid gweithredu diwydiannol mewn ymgais i gael codiad cyflog o 12%. Nododd y pwyllgor fod y gyllideb ddrafft yn cynnwys y "catchup" o 1% i 5%, ond ni fyddai unrhyw gynnydd pellach wedi ei ariannu a byddai'n cynrychioli pwysau ariannol ychwanegol o oddeutu £1m ar gyfer pob cynnydd o 1% mewn cyflog.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth gyllidebol fanwl ganlynol a oedd wedi'i hatodi i'r Strategaeth ac a oedd yn berthnasol i'w faes gorchwyl:-

- **Atodiad A(i)** – Crynodeb o'r arbedion effeithlonrwydd ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant.
- **Atodiad A(ii**) – Crynodeb o Bwysau Twf ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant.
- **Atodiad B** – Adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant.
- **Atodiad C** – Crynhoad Taliadau ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai cynigion terfynol y gyllideb yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ganol/diwedd Chwefror, a fyddai'n galluogi cyflwyno cyllideb gytbwys i'r Cyngor Sir ar 1 Mawrth 2023. Fodd bynnag, oherwydd yr oedi yn y setliad dros dro, a'r effaith ganlyniadol ar gwblhau'r gyllideb gan Lywodraeth Cymru, ni fyddai'r setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi tan 7 Mawrth 2023.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch defnyddio cronfeydd wrth gefn ysgolion ar gyfer 2022/23, cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ei bod yn bosibl y byddai'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn fwy ffafriol na'r hyn a ragwelwyd, oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau amseru'r cyllid grant. Yn hyn o beth, eglurwyd y byddai unrhyw gyllid grant penodol i ysgolion fyddai'n dod i law yn cael ei roi yng nghronfeydd wrth gefn yr ysgol, pe bai telerau ac amodau'r grant yn caniatáu.

Codwyd pryderon ynghylch y posibilrwydd o ailbroffilio ysgolion llai lle mynegwyd bod angen rhagor o wybodaeth cyn y gellid cefnogi arbedion effeithlonrwydd i'r perwyl hwn. Eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod yr adolygiad o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Sir Gâr ar y gweill a bod disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn Haf 2023. Dywedwyd y byddai canlyniadau'r adolygiad yn cael eu hystyried gan y Cabinet maes o law.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, mewn ymateb i ymholiad, y byddai unrhyw Weithredu Diwydiannol gan aelodau'r NEU yn arwain at arbediad cyllidebol uniongyrchol i'r Awdurdod Lleol. Yn ogystal, eglurwyd na

fyddai rhagor o ddarpariaeth gyllidebol yn cael ei gwneud o ran Dyfarniadau Cyflogau Athrawon hyd nes bod y setliad wedi'i gwblhau.

Yn dilyn cais am wybodaeth bellach ynglŷn â'r ysgolion a oedd mewn diffyg o ran y gyllideb ym mis Mawrth 2022, pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant y gallai amryw resymau gyfrannu at pam fod ysgol mewn diffyg o ran y gyllideb, er bod y prif wariant ar gyfer ysgolion yn ymwneud â chostau staffio. At hynny, eglurwyd na fyddai gan ysgolion llai lawer o hyblygrwydd yn eu cyllidebau i dalu costau annisgwyl. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod cyfathrebu a chefnogaeth rheolaidd yn cael eu darparu i ysgolion mewn ymdrech i fynd i'r afael â heriau cyllidebol.

Mynegwyd pryderon am effaith y codiad arfaethedig yng nghost prydau ysgol a nodwyd yn y Crynhoad Taliadau, a allai arwain at lai yn prynu prydau ysgol ac at ddiffyg pellach yn y sefyllfa gyllidebol. Cadarnhawyd y byddai'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor yn cael eu mynegi i'r Cabinet fel rhan o'r broses ymgynghori cyn i'r gyllideb derfynol gael ei gosod gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2023. Eglurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i'r Pwyllgor mai'r Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg oedd yn gyfrifol am gysoni'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant y byddai elfen o gyllideb y Cyngor yn cael ei dirprwyo i ysgolion er mwyn rheoli diswyddiadau, ac roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt i alluogi ysgolion i ddeall yn well effaith diswyddiadau a dod yn fwy cost-effeithiol. Yn hyn o beth, dywedodd yr Aelodau y byddai angen diweddaru'r rhaglen Hyfforddiant i Lywodraethwyr er mwyn adlewyrchu'r gofyniad ychwanegol.

Cafwyd trafodaeth ar y broses bresennol oedd ar waith ynghylch diswyddiadau ysgolion, ac adroddwyd i'r Pwyllgor nad oedd gwybodaeth i ddynodi newid i ddeddfwriaeth Gymreig er mwyn dilyn model yr Alban, lle'r oedd athrawon yn cael eu cyflogi'n ganolog i hwyluso rheolaeth effeithiol o'r gweithlu o ran symud staff i ddiwallu anghenion ysgolion.

Mynegwyd pryder mewn perthynas â'r gostyngiad arfaethedig yn y gyllideb ar gyfer gwasanaethau cysylltiedig â chymorth ieuenctid. Cadarnhaodd y Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr y byddai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn rhoi rhywfaint o gymorth ariannol i wasanaethau cymorth ieuenctid. Roedd y Cyngor hefyd yn edrych ar wahanol ffyrdd o ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid mewn ymdrech i leihau effaith gostyngiadau cyllidebol ar wasanaethau rheng flaen.

Cyfeiriwyd at yr adolygiad arfaethedig o ôl-troed ysgolion cynradd, er mwyn creu arbedion effeithlonrwydd o £200k ar gyfer 2024/25. Gofynnodd Aelod ynglŷn â'r dull o ddewis ysgolion i'w cau, ynghyd â'r nifer posibl o ysgolion y byddai angen eu cau er mwyn cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd. Eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod y ffigwr a nodwyd yn ddangosol ar hyn o bryd, hyd nes canlyniad yr adolygiad. Fodd bynnag, cadarnhawyd y gellid creu rhyw £75k - £80k o arbedion ym mhob achos o gau ysgol, o ganlyniad i gostau'r safle a chostau rhedeg.

PENDERFYNWYD:

5.1 Bod yr Ymgynghoriad ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26 yn cael ei dderbyn;

5.2 Bod y Crynhoad Taliadau a nodir yn Atodiad C yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

6. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor esboniad dros beidio â chyflwyno'r adroddiadau craffu canlynol:

- Cynllun Busnes drafft y Gwasanaethau Addysg a Phlant a'r Strategaeth Gorfforaethol
- Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol 10 mlynedd

PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiadau.

7. DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU Y PWYLLGOR CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â cheisiadau neu atgyfeiriadau a oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

8. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Adolygodd y Pwyllgor y rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn ei gyfarfod nesaf i'w gynnal ar 16 Mawrth 2023, a oedd wedi deillio o Flaengynllun Gwaith y Pwyllgor am 2022/2023. Pwysleisiodd y Cadeirydd fod y Blaengynllun Gwaith yn ddogfen hyblyg y gellid ei diweddaru yn ôl y gofyn trwy gydol y flwyddyn wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg. O ganlyniad, byddai sesiwn arall i gynllunio'r Blaengynllun Gwaith yn cael ei chynnal ar ddiwedd y cyfarfod i adolygu blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer 2022/23, yn unol â Blaengynllun Gwaith y Cabinet.

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 16 Mawrth, 2023.

9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 01 RHAGFYR 2022

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2022 yn gofnod cywir.

CADEIRYDD **DYDDIAD**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council